Canllaw i aelwydydd ynghylch pryd i gael prawf ar gyfer COVID-19 ac am ba hyd y dylid hunanynysu

Mae'r senarios canlynol yn seiliedig ar deulu o bedwar yn byw yn yr un cartref.

Oedolyn 1
Oedolyn 2
Plentyn 1
Plentyn 2

SENARIO 1

Mae Oedolyn 1 yn cael prawf ac mae'n bositif.

Mae'n rhaid i Oedolyn 1 hunanynysu am 10 niwrnod.
Mae'n rhaid i bawb arall yn y cartref hunanynysu am 14 diwrnod.

SENARIO 2

Mae Plentyn 1 yn dangos un o symptomau nodweddiadol COVID-19.

Mae'n rhaid i Blentyn 1 hunanynysu am 10 niwrnod (neu'n hirach os oes angen) hyd nes ei fod yn heini ac yn iach.
Mae'n rhaid i bawb arall hunanynysu am 14 diwrnod.

Os yw canlyniad prawf Plentyn 1 yn negatif, yna bydd y cyfnod hunanynysu yn dod i ben ar gyfer pawb arall yn y cartref ar unwaith.

Os na chafwyd canlyniad a bod y symptomau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn symptomau COVID-19, yna dylid cydymffurfio â'r cyfnodau hunanynysu a'r meini prawf heini ac iach.

SENARIO 3

Mae Oedolyn 2 wedi profi'n bositif ac mae'r cartref cyfan yn hunanynysu. Mae Plentyn 1 yn cael prawf yn ddiweddarach ac mae'r canlyniad yn negatif.

Mae'n rhaid i Oedolyn 2 hunanynysu am 10 niwrnod (neu'n hirach os oes angen) hyd nes ei fod yn heini ac yn iach.
Mae'n rhaid i bawb arall hunanynysu am 14 diwrnod.

Mae canlyniad negatif i brawf dim ond yn golygu nad ydych wedi eich heintio ar yr adeg y gwnaethpwyd y prawf – mae'r cyfnod hunanynysu estynedig o 14 diwrnod ar gyfer cysylltiadau i achos positif yn caniatáu ar gyfer cyfnod o drosglwyddo, cael yr haint a gwella.

SENARIO 4

Mae Plentyn 1 wedi bod i barti ac nid oes ganddo symptomau. Mae'r cynllun Profi, Olrhain, Diogelu yn nodi bod achos positif yn y parti a oedd wedi'i heintio ar y pryd, ond nid oedd yn dangos symptomau. Mae Profi, Olrhain, Diogelu yn nodi Plentyn 1 fel un o gysylltiadau'r person heintiedig.

Mae'n rhaid i Blentyn 1 hunanynysu am 14 diwrnod ar ôl y parti (y pwynt lle y cafwyd cysylltiad) – rhoddir gwybod iddynt am hyn drwy'r cynllun Profi, Olrhain, Diogelu.
Gall pawb arall barhau yn ôl yr arfer.

Gall Plentyn 1 ddatblygu symptomau yn ystod y cyfnod hunanynysu – dylai drefnu prawf. Os yw'r prawf yn negatif, mae'n rhaid iddo barhau i hunanynysu drwy gydol y cyfnod.

Os yw'r prawf yn bositif, yna mae'n rhaid i'r cartref hunanynysu am 14 diwrnod ar ôl i'r symptomau ddechrau ac mae'n rhaid i'r plentyn hunanynysu am 10 niwrnod ar ôl i'r symptomau ddechrau.